**Gaeaf 2025**

Cyfeillion Seindorf Beaumaris Band

# Cyfarchion y Tymor

Wrth iddi ddod i ben, gobeithiwn eich bod wedi cael blwyddyn da. Mae Seindorf Beaumaris yn sicr wedi. Cafwyd canlyniadau gwych yn yr Eisteddfod Genedlaethol i'r bandiau Ieuenctid a'r Band Hŷn yn ein harwain i edrych ymlaen yn eiddgar at Eisteddfod yr Urdd y flwyddyn nesaf yn Ynys Môn, a'r Band Ieuenctid yn cystadlu unwaith eto ym Mhencampwriaethau Ewrop yn Awstria.

Ar ben hynny, yr haf hwn dathlodd y band 25 mlynedd yn y 'bandrwm' yn y Ganolfan Gerdd ar New Street, Biwmares. Mae'n adnodd gwych sy'n galluogi'r band i berfformio, cystadlu ac addysgu ar y lefel uchaf, ac mae'n ein galluogi i fynd o nerth i nerth mewn hinsawdd sydd yn gwneud hi'n anodd iawn i rhai bandiau eraill barhau. Heb eich cefnogaeth chi, ni fyddai'n bosib parhau i gadw'r Ganolfan Gerdd i fynd, felly diolch i bob un ohono'ch sydd yn ein cefnogi'n rheolaidd. Diolch pawb!

Rhan o ddathlu'r garreg filltir hon oedd comisiynu gorymdaith newydd 'Castell Beaumaris'. Dewisiwyd yr ennillydd mewn cystadleuaeth rhwng sawl cyfansoddwr. Ysgrifennwyd yr orymdaith buddugol gan Andy Wareham a chafodd ei pherfformiad cyntaf yn Eisteddfod Môn ym mis Mai. Mae gan gynifer o gestyll orymdeithiau wedi'u henwi er anrhydedd iddynt a rwan, o'r diwedd gall Biwmares ymuno â nhw.



*Dathliadau 25 mlynedd ar y Green*

# Newyddion y bandiau

## Bandiau Iau a Chanolradd

Llongyfarchiadau i'r nifer o aelodau o'r band Canolradd a symudodd i fyny ar ddechrau'r flwyddyn i chwarae yn y Band Ieuenctid. Golygai hyn fod y niferoedd yn rhy isel ar y pryd i greu 2 fand, felly daeth pawb at eu gilydd i ffurfio'r Band Iau, a gyda'u gilydd fe wnaethant chwarae yn y Prynhawn o Gerddoriaeth gwych ym mis Mai, ac yn y cyngerdd Haf. Perfformiodd amryw o aelodau hefyd unawdau a darnau ensemble yn Eisteddfod Môn ym Miwmares ym mis Mai. Cystadlodd rhai aelodau o'r band Iau hefyd yn rowndiau lleol yr Urdd a chyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Margam ym mis Mai – llongyfarchiadau iddynt i gyd!

Mae'r band Iau wedi bod yn gweithio'n galed i godi arian hefyd, yn ystod Diwrnod Hwyl Llangoed, a hefyd ar daith gerdded noddedig. Cododd dau aelod, Lilli a Nayia, hyd yn oed mwy drwy werthu cacennau yn eu parti pen-blwydd eu hunain! Da iawn i bob un ohonyn nhw!

Mae disgyblion iau newydd wedi ymuno ac mae rhai wedi symud i fyny i'r Band Canolradd felly mae gennym ni 2 fand ifanc eto.

**Digwyddiadau Nadolig ac Ionawr 2025/6:**

**Rhag:**

| | | |
|---|---|---|
| Gew 5th 7.00 pm | Cyngerdd Nadolig | Canolfan |
| Sad 6th 2.00 pm | Cyngerdd Snowman | Canolfan |
| Sad 6th 7.00 pm | Cyngerdd Nadolig | Canolfan |
| Llun 8th 7.30pm | Gwasanaeth Carolau | Bangor |
| | Gwasanaethau Brys | Cadeirlan |
| Iau 11th TBC | Carolau | Llanfairpwll |
| Sad 13th TBC | RAYC Carolau | B'maris RAYC |
| Mer 16th TBC | St Mary & St Nicholas Gwasanaeth Nadolig | Beaumaris |
| Gwe 19th TBC | Carolau Owain Glyndwr | Llanddona |
| Sul 21st TBC | Gwasanaeth Carolau | Llandegfan |
| Maw 23rd 6.00pm | Carolau | Henllys Hall |
| Gwe 26th TBC | Hot Pennies | Beaumaris |
| **Ion:** | | |
| Gwe 23rd 7.30pm | Cawsa Chan Santes Dwynwen | Band room |



*Iau a Chanolradd ar daith gerdded noddedig*

## Band Ieuenctid

Mae Biwmares yn  falch iawn o’r Band Ieuenctid. Mae dechrau’r flwyddyn yn aml yn gymharol dawel gan fod cymaint o aelodau’r band yn gorfod ymdopi ag arholiadau ac astudio . Fodd bynnag, eleni fe wnaethon nhw ddod o hyd i amser ym mis Ebrill ar gyfer cyngerdd ‘ochr yn ochr’ gyda band pres Ieuenctid Caerdydd a’r Fro yn y Ganolfan. Fe wnaethon nhw fwynhau’n fawr ac roedd yn arbennig o braf croesawu arweinydd Caerdydd, Charles Maynard, sy’n gyn-aelod ifanc o Fand Biwmares.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd ym mis Awst yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, lle enillodd y Band Ieuenctid eu hadran gyda pherfformiad rhagorol, sy'n golygu unwaith eto eu bod wedi cymhwyso i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Ieuenctid Ewrop yn Awstria y flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau mawr!

Aelodau nodedig: Rydym mor falch o’n wyth aelod presennol ac un cyn-aelod a weithiodd yn galed ym mis Awst yn chwarae ym Mand Pres Ieuenctid Cenedlaethol Cymru – cyflawniad gwych a chyfraniad gwych gan deulu Band Seindorf Beaumaris.



9 chwaraewr o Beaumaris ym Mand Pres Ieuenctid Cenedlaethol Cymru

Ac rydym hefyd yn hynod falch o gyn-aelod o’r Band Ieuenctid, Gwenllian Howe, a ddewiswyd ym mis Chwefror i fod yn rhan o Fand Pres Ieuenctid Ewrop.

## Band Hŷn

Ym mis Mawrth rhoddodd y Band Hŷn berfformiad gwych wrth gystadlu ym Mhencampwriaethau Rhanbarthol Cymru yn Abertawe. Roedd yn Adran 1af anhygoel o gryf ac er iddynt ddod yn 7fed, cawsant amser gwych a mwynhau'r darn.

Chwaraeodd y band hefyd ym mis Mai yn Eisteddfod Ynys Mon ym Miwmares. Roeddent yn falch o chwarae yn y seremoni i anrhydeddu Tlws y Cerddor a Tlws yr Ifanc, pan chwaraeon nhw’r orymdaith newydd a gomisiynwyd yn arbennig ‘Castell Beaumaris’ – teyrnged addas. Cafodd y gynulleidfa eu syfrdanu gan y darn a chafodd gymeradwyaeth cyn i’r band hyd yn oed orffen chwarae’r nodyn olaf! Dewiswyd y gwaith newydd mewn cystadleuaeth a’r beirniaid oedd cyn gyfarwyddwr cerdd Band Biwmares, Gwyn Evans.



*Band Hŷn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam*

Ym mis Awst cystadlodd y band yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, gan ddod yn ail, ac ym mis Tachwedd rhoddasant gyngerdd Coffa hyfryd a theimladwy ar benwythnos Sul y Coffa.

Rhwng hyn i gyd mae'r band wedi perfformio nosweithiau Oompah codi arian mewn gwahanol leoliadau ac wedi darparu cerddoriaeth mewn digwyddiadau fel Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llangefni. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur, a gyda Eisteddfod yr Urdd yn Môn y flwyddyn nesaf , mae’n argoeli’n flwyddyn prysur arall!

## LSW

Mae band cymdeithasol Biwmares, yr LSW (Last of the Summer Wind) wedi bod yn helpu gyda digwyddiadau fel noson ‘Oompah Cwrw a Chrisp!’ y Cyfeillion eu hunain, yn ogystal â dwy noson Bingo codi arian lwyddiannus. Er yn anffodus na chynhaliwyd eleni y gystadleuaeth yn Y Drenewydd fe wnaethant gystadlu yn Eisteddfod Ynys Mon a chymryd rhan llawn yn nathliad pen-blwydd 25 mlynedd y Ganolfan Gerdd.

**Cyfeillion Gwefan** www.friendsofbeaumarisband.org.uk

Peidiwch ag anghofio ymweld â gwefan Cyfeillion Seindorf Band Biwmares,
lle byddwch yn dod o hyd i fwy o luniau, y newyddion diweddaraf a dyddiadau dyddiadur.